

## Y Còd Cefn Gwlad

Cadwch at y Còd Cefn Gwlad bob amser a chofio'r canlynol:

### Parchu pobl eraill

- Ystyriwch y gymuned leol a'r bobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored
- Gadewch bob giât ac eiddo fel rydych yn eu canfod nhw
- Cadwch at lwybrau a thraciau sydd wedi'u marcio

### Gwarchod yr amgylchedd naturiol

- Peidiwch â gadael unrhyw olion o'ch ymweliad ac ewch â'ch sbwriel adref gyda chi
- Cadwch gwn ar dennyn bob amser
- Peidiwch byth â chasglu nad adwreiddio planhigion

### Mwynhau'r awyr agored

- Cynllunio ymlaen llaw a bod yn barod
- Cadw at gyngor ac arwyddion lleol

## Countryside Code

Please follow the Countryside Code and always remember to:

### Respect other people

- Consider the local community and other people enjoying the outdoors
- Leave gates and property as you find them
- Keep to marked paths and trails

### Protect the natural environment


- Leave no trace of your visit and take your litter home
- Keep dogs on a lead at all times
- Never pick or uproot plants

### Enjoy the outdoors

- Plan ahead and be prepared
- Follow advice and local signs



## Lleoliad / Location



Gan deithio tua'r De ar yr A494 o Ruthun, trowch i'r chwith wrth yr arwydd am Lanfair DC a pharcio yn y gilfan (SJ 127 553) heb rwystru'r giât. Cerddwch yn ôl dros y bont, croeswch yr A494 yn ofalus, a dilynwch y llwybr i'r warchodfa (SJ 124 554; what3words///ironclad.storeroom.spins). Opsiwn parcio arall / lluniaeth ar gael yn Siop Pwllglas (SJ 118 548).

**Map OS Explorer 264.**

Heading S on the A494 from Ruthin, turn L at the signpost for Lanfair DC and park in the layby (SJ 127 553) without blocking the gate. Walk back over the bridge, carefully cross the A494, and follow the path to the reserve (SJ 124 554; what3words///ironclad.storeroom.spins). Alternative parking/refreshments at Siop Pwllglas (SJ 118 548). **OS Explorer Map 264.**



Ymddiriedolaeth Natur  
**Gogledd Cymru**  
**North Wales**  
Wildlife Trust

[northwaleswildlifetrust.org.uk](http://northwaleswildlifetrust.org.uk)



**North Wales Wildlife Trust**

Llys Garth, Garth Road, Bangor, Gwynedd, LL57 2RT

01248 351 541


[info@northwaleswildlifetrust.org.uk](mailto:info@northwaleswildlifetrust.org.uk)

Registered Charity Number: 230772 / Company Number 773995

GWARCHODFA NATUR

# Coed Cilygroeslwyd

NATURE RESERVE



JORDAN HURST

## Cadwch mewn cysylltiad!

Ewch i'n gwefan ni am y newyddion diweddaraf a chofrestrwch i dderbyn ein e-gylchlythyr am ddim

## Stay in touch!

Visit our website for the latest updates and sign up today for your free e-newsletter

[www.northwaleswildlifetrust.org.uk](http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk)



Ymddiriedolaeth Natur  
**Gogledd Cymru**  
**North Wales**  
Wildlife Trust





GWARCHODFA NATUR

# Coed Cilygroeslwyd

NATURE RESERVE

## Hen a newydd

Dyma un o warchodfeydd natur cyntaf Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, a chafodd ei phrynu yn 1964: yn gartref i rai rhywogaethau gwirioneddol brin ac yn gyforiog o fywyd gwyllt.

Mae'r coetir llydanddail cymysg yma'n iau nag y mae'n ymddangos, gyda'i flodau gwyllt (blodau'r gwynt, mandon pêr, clychau'r gog) yn gysylltiedig â choetiroedd hynafol. Mae hyn oherwydd bod y coetir yn tyfu ar ehangder o balmant calchfaen, gyda'r craciau'n creu'r microhinsawdd perffaith i alluogi'r planhigion hyn i oroesi pan ddiplannodd y coetir gwreiddiol a'r tir yn cael ei bori. Er mai derw ac ynn yw'r rhan fwyaf o'r canopi, mae'r ardaloedd o goed yw yn brinnach, gyda'u hadau'n hoff fwyd y gylfinbraff dros y gaeaf. (Yr unig goetir ywen o'r fath yn Nyffryn Clwyd.) Yma mae briwlys y calch, blodyn sirol Sir Ddinbych, i'w ganfod mewn un o ddau safle yn unig yng Nghymru.

## Old and new

One of North Wales Wildlife Trust's first nature reserves, purchased in 1964: home to some genuine rarities and brimming with wildlife.

This mixed broadleaved woodland is younger than it appears, with its wildflowers (wood anemone, sweet woodruff, bluebell) associated with ancient woodlands. This is because the woodland grows on an expanse of limestone pavement, the cracks creating the perfect microclimate to allow these plants to survive when the original woodland disappeared and the land was grazed. Whilst oak and ash form most of the canopy, rarer are the yew areas, whose seeds are a favourite winter food of hawfinches. (The only such yew woodland in the Vale of Clwyd.) Limestone woundwort, the county flower of Denbighshire, is found here, one of only two sites in Wales.



JORDAN HURST

Mae'r warchodfa'n wych ar gyfer crwydro yn y gwanwyn, gyda llawer o flodau'r gwanwyn gan gynnwys cennin Pedr gwyllt, clychau'r gog, briallu, fioledau, **mandon** a chlust yr arth.

The reserve is great for a wander in spring, with lots of spring flowers including wild daffodils, bluebells, primroses, violets, **woodruff** and sanicle.



PAUL LANE



JORDAN HURST

Mae gwarchodfa Coed Cilygroeslwyd wedi'i lleoli o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), sy'n golygu ei bod mewn ardal lle mae posib dod o hyd i'r cynefinoedd, y rhywogaethau a'r nodweddion daearegol pwysicaf.

Coed Cilygroeslwyd is located within a Site of Special Scientific Interest (SSSI), meaning it is in an area where the most important habitats, species and geological features can be found.

Cadwch eich llygaid a'ch clustiau ar agor am yr holl **wybedog brith** du a gwyn sy'n nythu yma – gallwch eu clywed yn canu drwy gydol mis Mai.

Keep your eyes and ears peeled for all the black and white **pie'd flycatchers** who nest here – you can hear them singing throughout May.



MARK HAMBLIN 2020 VISION



JON HAWKINS

Mae'r warchodfa'n llecyn delfrydol ar gyfer heidiau crwydrol o ditwod yn y gaeaf, gan gynnwys titw'r gors, y titw mawr, y titw penddu, y titw tomos las a'r **titw cynffon hir**.














The reserve is a prime spot for wandering flocks of tits in the winter, including marsh tits, great tits, coal tits, blue tits and **long-tailed tits**.

## Oeddech chi'n gwybod?

Prynwyd Coed Cilygroeslwyd gan YNGC gan y cyngor yn 1964 am £1 yn unig! Perswadiodd un o'n sylfaenwyr ni y cyngor i'w gwerthu am bris bach fel hyn.

**Did you know?** Coed Cilygroeslwyd was bought by NWWT from the council in 1964 for just £1! One of our founders persuaded the council to part with it for a nominal fee.

# Canllaw / Key

<b>E</b> Mynedfa / Entrance	<b>P</b> Parcio / Parking	 Coed collddail / Deciduous trees
 Ffin y warchodfa / Reserve boundary	 Llwybr troed cyhoeddus / Public footpath	 Llwybr caniatol / Permissive path
 Ffordd fawr / Major road	 Ffordd fechan / Minor road	 Afon / River
 Terfyn cae / Filed boundary	 Trac / Track	 Clogwyn / Crag
 Glaswelltir / Grassland	 Adeiledig / Built	
 Coetir collddail / Deciduous woodland		




## Mynediad a diogelwch


Y lle hawsaf i barcio ydi yn y maes parcio ger Siop Pwllglas, lle mae map yn dangos y llwybr i chi ei ddilyn i gael mynediad i'r warchodfa. Mae gan y safle nifer o lwybrau coetir, sy'n serth mewn manau. Er ei fod yn weddol hawdd ei gerdded, nid oes mynediad gyda chadair olwyn oherwydd rhwystrau a llwybrau anwastad a llithrig i'r fynedfa.

## Access and safety

The easiest place to park is in the car park by Siop Pwll-glas, where there is a map showing you the route to take to access the reserve. The site has a number of woodland paths, steep in places. Although it is fairly easy walking, there is no wheelchair access due to obstructions and uneven, slippery paths to the entrance.



Contains Ordnance Survey data  
© Crown copyright and database  
right 2013



## Rheoli Bywyd Gwylt

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae llennyrch wedi cael eu torri i mewn i'r coetir i annog fflora'r ddaear, gan gynnwys niferoedd cynyddol o degeirianau llydanwyrdd mwyaf. Mae ardal fechan o laswelltir sy'n cael ei phladurio'n flynyddol â llaw, yn ofalus iawn gan adnabod ac osgoi briwlys y calch, blodyn prin iawn sydd i'w weld mewn llond llaw o lefydd yn unig yn y DU. Mae gwirfoddolwyr wedi symud cennin Pedr gwylt o ardaloedd toreithiog i ardaloedd prinnach yn y coetir ac yn cynnal manau agored er mwyn iddynt ffynnu. Mae mwy na 50 o focsys nythu yn y coetir sy'n cael eu monitro gan wirfoddolwyr – mae hyn yn helpu i dracio nifer yr adar sy'n nythu yn y warchodfa, gan gynnwys y gwybedog brith.



HEATHER MARTIN

## Managing for wildlife

In recent years glades have been cut into the woodland to encourage ground flora, including growing numbers of greater butterfly orchids. There is a small grassland area which is scythed annually by hand, carefully identifying and avoiding the limestone woundwort, a very rare flower found in only a handful of places in the UK. Volunteers have moved wild daffodils from plentiful areas to more scarce areas in the woodland and maintain open areas for them to flourish. There are over 50 nest boxes in the woodland which are monitored by volunteers – this helps track numbers of nesting birds on the reserve, including pied flycatchers.

In partnership with / Mewn partneriaeth â:



Mewn Partneriaeth â  
**Llywodraeth Cymru**  
In Partnership with  
**Welsh Government**



### GWANWYN

Cennin Pedr gwylt >  
Corws y wawr  
Gwybedog brith

### SPRING

Wild daffodil >  
Dawn chorus  
Pied flycatcher

### HAF

Briwlys y calch >  
Tegeirianau  
Glöyn byw y gweirlöyn brych

### SUMMER

Limestone woundwort >  
Orchids  
Speckled wood butterfly

### HYDREF

Ffyngau'r hydref  
Aeron ywen >  
Aeron piswydd

### AUTUMN

Autumn fungi  
Yew berries >  
Spindle berries

### GAEAF

Gylfinbraff >  
Eirlys  
Ywen

### WINTER

Hawfinch >  
Snowdrop  
Yew

## Da ni angen eich cefnogaeth!

Un o mwy na 30 Gwarchodfa Natur sydd yn berchen i, neu sydd yn cael eu rheoli gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Trwy weithio gyda thirfeddianwyr, rheolwyr a chymunedau rydym yn anelu i adfer, ail greu ac ailgysylltu cynefinoedd rhanedig er mwyn cyflawni tirwedd ble all fywyd gwylt ffynnu a ble all pobl fyw bywydau fwy iachus a hapus.

Rydyn ni'n elusen annibynnol, leol sy'n dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion eraill. **Plis helpwch ni os yw hynny'n bosib.**

- ✓ **Dod yn aelod** am ddim ond ychydig bunnoedd bob mis
- ✓ **Gwirfoddolwr** – yma neu yn un o'n gwarchodfeydd natur eraill
- ✓ **Gadewch Waddol** – fe fydd pob rhodd ym mhob Ewyllys, boed yn fach neu'n fawr, yn gwneud gwahaniaeth i'ch bywyd gwylt lleol



## We need your support!

This nature reserve is one of more than 30 owned or managed by North Wales Wildlife Trust. By working with other landowners, managers and communities we aim to restore, recreate and reconnect fragmented natural

habitats to achieve a landscape where wildlife can flourish and people can lead happier and healthier lives.

We are an independent, local charity, reliant on the support of our members and other donations. **Please help us if you can.**

- ✓ **Become a member** for just a few pounds a month
- ✓ **Volunteer** – whether here or at one of our other nature reserves
- ✓ **Leave a Legacy** – every gift in every Will, however large or small, makes a difference to your local wildlife

[www.northwaleswildlifetrust.org.uk](http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk)

ROSS HODDINIOTT/2020VISION

JORDAN HURST

AMY LEWIS

JON HAWKINS